Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru) yn cydweithio i fynd i'r afael â gwytnwch morol

Mae Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru) wedi bod yn cydweithio i sicrhau bod ein moroedd a'n harfordiroedd yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Ionawr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 24 Ionawr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/partneriaeth-moroedd-ac-arfordiroedd-cymru-pmaa-cymru-yn-cydweithio-i-fynd-ir-afael-gwytnwch-morol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae PMaA Cymru yn rhoi pwyslais ar fod yn gynhwysol ac yn agored, ac ar feithrin cysylltiadau a rhwydweithio er mwyn hwyluso cyd-ddylunio a gweithredu ar y cyd rhwng grwpiau buddiant.

Mae'r Bartneriaeth wedi cydweithio i lunio a chytuno ar Naratif ar y Cyd [**Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru): naratif ar y cyd** ][**1**] sydd newydd ei gyhoeddi, sy'n nodi'r hyn sydd ei angen yng Nghymru er mwyn ein helpu i wireddu gweledigaeth ein **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**, sef moroedd Cymru sy'n lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol. Gwneir hyn drwy dri phrif 'gam galluogi' neu thema:

- Datblygu **llythrennedd morol** ym mhob rhan o gymdeithas, gan godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein moroedd a'n harfordiroedd. Bydd hyn yn ysgogi camau pellach ar draws meysydd polisi a fframweithiau gweinyddol eraill megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae **buddsoddi hirdymor cynaliadwy** a datblygu ffynonellau cyllid cyhoeddus a phreifat tymor hwy yn hanfodol er mwyn helpu i gyflawni amcanion allweddol.
- Bydd **cynyddu capasiti**, yn arbennig ar y lefel leol, yn arwain at ymgysylltu ystyrlon â'r gymuned er mwyn canfod cyfleoedd a heriau lleol a chymryd camau yn eu cylch.

Mae PMaA Cymru yn gweithio ar y camau canlynol ar hyn o bryd er mwyn ategu a hwyluso'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r amgylchedd morol, gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid, gan ddefnyddio ein hadnoddau cyffredin yn effeithiol:

- Datblygu strategaeth Llythrennedd Morol i Gymru, a chamau a digwyddiadau i gysylltu pobl, yn ogystal â gwaith i dynnu sylw at bwysigrwydd yr amgylchedd morol a'r effaith rydym yn ei chael arno.
- Llunio cynnwys ar gyfer Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru, yn benodol datblygu elfen cynyddu capasiti newydd i sicrhau ymgysylltu tymor hwy a chynyddu capasiti mewn cymunedau morol er mwyn nodi camau lleol a'u

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/partneriaeth-moroedd-ac-arfordiroedd-cymru-pmaa-cymru-yn-cydweithio-i-fynd-ir-afael-gwytnwch-morol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cymryd.
- Ystyried system cyllid cyfunol ar gyfer yr amgylchedd morol yng Nghymru.
- Datblygu **argymhellion Plymio Dwfn Bioamrywiaeth 30x30** ar gyfer cynyddu capasiti, meithrin sgiliau, newid ymddygiad a chodi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd morol.

Mae PMaA Cymru yn enghraifft wych o'r ffordd y mae ymgorffori'r pum ffordd o weithio a welir yn **Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn ein galluogi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd a gwella gwytnwch ein moroedd a'n harfordiroedd.

Caiff y Bartneriaeth ei harwain gan Gadeirydd newydd a benodir gan Weinidogion yn 2023, er mwyn cydnabod pa mor bwysig yw gwytnwch morol.

I ddarllen rhagor am PMaA Cymru, ewch i **Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru)** a chysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

[1] Mae Naratif a Rennir yn stori y mae pobl yn ei chreu gyda'i gilydd, o'r gwaelod i fyny, trwy broses delifro - **Why Shared Narratives Matter More Than Ever**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/partneriaeth-moroedd-ac-arfordiroedd-cymru-pmaa-cymru-yn-cydweithio-i-fynd-ir-afael-gwytnwch-morol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.